QE 32
Ymchwiliad i Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)
Inquiry into the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Bill
Ymateb gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg
Response from NHS Wales Shared Services Partnership - Legal & Risk Services

Ymateb i Ymgynghoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y *Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)*

Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, 2ail Awst 2019

1. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn croesawu cyflwyno *Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)* ("y Bil"), yn enwedig o ran cryfhau'r ddyletswydd ansawdd bresennol sydd ar gyrff y GIG a sefydlu dyletswydd gonestrwydd sefydliadol ar ddarparwyr gwasanaethau'r GIG.

2. Isod mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn nodi rhywfaint o sylwadau cryno ar y Bil. Wrth gyflwyno'r sylwadau hyn, mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn nodi bwriad i ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch drafftio'r Rheoliadau a'r Canllawiau cysylltiedig, ac ynghylch gwneud diwygiadau i *Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011.* Yng ngoleuni arbenigedd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn y maes dan sylw, dylem fod yn falch o roi cymorth a gofyn am fod yn aelod o'r gweithgor.

3. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg hefyd o'r farn y gallai hyn fod yn amser priodol i ystyried diwygiadau mwy eang i rai agweddau ar *Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011* sydd wedi peri anawsterau ymarferol i achwynwyr a Chyrff Iechyd.

Rhan 2 – Gwelliannau mewn Gwasanaethau Iechyd

4. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn nodi y bydd y Bil yn cyflwyno dyletswydd ar Weinidogion Cymru a Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig i sicrhau ansawdd gwasanaethau iechyd, yn enwedig o ran effeithiolrwydd a diogelwch gwasanaethau iechyd, a phrofiad unigolion y darperir gwasanaethau iechyd iddynt. Er bod y ddyletswydd ansawdd yn cael ei hail-lunio, nid yw'n ymddangos mai bwriad y Bil yw creu unrhyw atebolrwydd newydd am hawliadau nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd.

Rhan 3 – Dyletswydd Gonestrwydd

5. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn nodi cyflwyniad Dyletswydd Gonestrwydd sefydliadol. Bydd y manylion o ran diffiniadau a phrosesau yn cael eu nodi yn y Rheoliadau a'r Canllawiau cysylltiedig. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn cytuno mai dyma'r dull synhwyrol gan y bydd yn unol â strwythur presennol *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011* ac yn caniatáu digon o hyblygrwydd i brosesau gael eu diwygio yn ôl y gofyn.

6. Fel yr uchod, byddai Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn croesawu'r cyfle i fod yn aelod o'r gweithgor sy'n ymgynghori ynghylch y Rheoliadau a'r Canllawiau.

7. Lle cyfeirir y Bil at y prosesau a nodir yn y Rheoliadau a'r Canllawiau arfaethedig, bydd yn hanfodol i'r rheiny naill ai gael eu hysgrifennu yn y *Rheoliadau Gweithio i Wella (Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011),* neu eu bod yn cyd-fynd yn union â'r Rheoliadau hynny. Mae angen i'r broses fod yn gwbl glir o ran sut y bydd y dyletswyddau a'r prosesau presennol yn cyd-fynd â manylion y Dyletswydd Gonestrwydd.

8. Bydd darpariaethau'r Dyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol i gyrff y GIG, a ddiffinnir at ddibenion y Bil fel Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Awdurdodau Iechyd Arbennig a Darparwyr Gofal Sylfaenol sy'n darparu gofal iechyd ar ran Bwrdd Iechyd Lleol. Mae effaith hyn, yn enwedig o ran Darparwyr Gofal Sylfaenol, yn eang ac, ochr yn ochr â'r hyfforddiant i Fyrddau Iechyd (fel yr amlinellwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), rhagwelir y bydd angen treulio rhagor o amser yn codi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant i ddarparwyr gofal sylfaenol. Yn ogystal, gallai fod angen i'r Tîm Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol yng Ngwasanaethau Cyfreithiol a Risg gynorthwyo Practisiau Meddyg Teulu i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau i baratoi adroddiadau o dan Ran 3(5) o'r Bil. Bydd hyn yn effeithio ar lwyth gwaith. Efallai y bydd goblygiadau i Addysg a Gwella Iechyd Cymru hefyd mewn perthynas â Meddygon Teulu dan hyfforddiant a hyfforddeion eraill mae'n gyfrifol amdanynt.

9. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn nodi'r amodau ar gyfer y Dyletswydd Gonestrwydd arfaethedig, fel yr amlinellir yn Rhan 3(3) o'r Bil, a fydd yn cael ei ddiffinio ymhellach.

10. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn nodi'r cyfeiriad yn y Memorandwm Esboniadol nad yw sbarduno'r Dyletswydd Gonestrwydd yn dangos bod *"corff y GIG wedi ymddwyn yn esgeulus",* gan olygu na ddylid dod i gasgliad bod atebolrwydd cyfreithiol yn bodoli. Dylai'r egwyddor honno gael ei gwneud yn glir yn y Rheoliadau a'r Canllawiau cysylltiedig a dylai'r prosesau egluro sut y bydd dyletswyddau presennol y Corff Iechyd i ymchwilio i Atebolrwydd Cymwys o dan *Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011* yn eistedd ochr yn ochr â'r broses newydd, neu'n ffurfio rhan ohoni.

11. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn nodi bod y Bil yn diffinio "niwed" fel un sy'n cynnwys *"niwed seicolegol ac, yn achos defnyddiwr gwasanaeth sy'n feichiog, golli neu niweidio'r plentyn yn y groth".* Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd arweiniad pellach yn cael ei rannu i sicrhau ei bod yn glir i ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaeth pa lefel o niwed mae'n rhaid ei dioddef cyn i'r dyletswydd gonestrwydd gael ei sbarduno. Wrth wneud hynny, argymhellir yn synhwyrol y bydd y gweithgor yn ystyried y diffiniadau presennol o niwed.

12. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn argymell y dylid gwneud sylwadau yn y Rheoliadau a'r Canllawiau fel na ddylai unrhyw beth ynddynt gael unrhyw effaith ar egwyddorion presennol Braint Ymgyfreitha neu Fraint Broffesiynol Gyfreithiol. Mae'n anochel bod hyn yn wir gan nad yw cyfiawnder yn faes datganoledig, ond gallai darpariaeth benodol helpu i osgoi ansicrwydd a dadl.

Rhannau 4 a 5

13. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn nodi elfennau eraill y Bil, ond nid yw ar hyn o bryd yn cynnig sylwadau arnynt, h.y. disodli'r Cynghorau Iechyd Cymuned â Chorff Llais Dinasyddion a'r darpariaethau ar gyfer penodi Is-gadeiryddion ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG.